Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 22 Calan 2013




*O Dduw, ein nerth mewn oesoedd gynt,*
*ein gobaith am a ddaw,*
*ein lloches rhag ystormus wynt*
*a'n bythol gartref draw."*

Annwyl ffrindiau,

Rhyw gymysgedd o’r ddoe, yr heddiw a’r yfory yw adeg y Calan i’r rhan fwyaf ohonom. Edrychwn yn ôl yn hiraethus a diolchgar ar y llynedd a’r blynyddoedd a fu, yn ymwybodol iawn mai dros dro yr ydym yma ar y ddaear. Creadur amser yw dyn. Ond mae cyffro i’w ganfod hefyd ar ddechrau blwyddyn – gwefr y posibliadau. Mae cymaint i edrych ymlaen ato ac rydym mor obeithiol. Tybed pa brofiadau pleserus a ddaw i’n rhan? Ond gyda’r wefr, y mae hefyd bryder. Ofn siom a methiant. Ofn y cysgodion tywyll.

Sut felly yr ydym i ddechrau blwyddyn newydd fel aelodau o Eglwys Dduw? Fe ddylai’r geiriau a lefarodd Duw wrth Josua ar gychwyn ei gyfnod fel arweinydd milwrol a chrefyddol yn Israel ein calonogi’n fawr: “Bydd wrol a dewr … Paid ag arswydo na dychryn, oherwydd yr wyf fi, yr Arglwydd dy Dduw, gyda thi ple bynnag yr ei.” (Josua 1:9) Yn dilyn marwolaeth Moses, cyfrifoldeb Josua fab Nun oedd arwain y genedl i fewn i wlad yr addewid, ond gwyddai’r arweinydd newydd y byddai’n rhaid ymladd yn galed os am gymryd meddiant ohoni. Nid gorchwyl hawdd fyddai croesi’r afon Iorddonen a gorchfygu’r llwythau brodorol yng ngwlad Canaan. At hynny, ysbryd gwrthryfelgar oedd i’r bobl a dibynnent yn gyfan gwbl ar Josua i’w cadw mewn trefn ac i sicrhau eu bod yn parhau’n ffyddlon i Dduw. Er y gellir ystyried y rhyfela gwaedlyd a ddilynodd yn “lanhad ethnig” o ryw fath – yn rhinwedd y dinistrio bwriadol ar ddinasoedd cyfain, ynghyd â’u tiroedd, eu hanifeiliaid a’u pobl – mae’r hanes Beiblaidd yn pwysleisio hefyd addewid Duw i fod gyda’i bobl.

A gawn ninnau dderbyn y geiriau a lefarodd Duw wrth Josua fel anogaeth i ddyfalbarhau yn y gwaith o fod yn ddisgyblion i’r Arglwydd Iesu eleni? Iesu yw’r ail Josua, ac ynddo a thrwyddo Ef y mae Duw Cariad yn tanseilio pob arlliw o gasineb a rhyfelgarwch ag addfwynder a heddwch. Felly byddwn wrol a dewr. Peidiwn ag ofni’r anawsterau. Daliwn ati i galonogi’n gilydd. Fel ymhob blwyddyn, y tebyg yw y bydd gennym sawl Iorddonen i’w chroesi. Efallai y daw’r treialon wedi colli rhywun annwyl, neu yn sgil rhyw afiechyd blin nad yw’n barod i’n gadael. Mae’n bosibl y dônt drwy siomiant neu ofid teuluol, neu drwy anobaith a digalondid o weld y dystiolaeth Gristnogol yn gwanhau yn ein plith.

Ond drwy'r cyfan ni fydd Duw yn ein gadael i ymladd ein brwydrau ein hunain. Bydd Ef bob amser wrth law i'n harwain a'n hannog. Camwn ymlaen yn hyderus i'r yfory felly, gan gofio cyngor awdur y Llythyr at yr Hebreaid ar i ni "redeg yr yrfa sydd o'n blaen heb ddiffygio, gan gadw ein golwg ar Iesu, awdur a pherffeithydd ein ffydd". (Hebreaid 12:1)

Fe ddywedir mai ffordd o fyw yn seiliedig ar ffydd yw Cristnogaeth. Ar ddechrau blwyddyn newydd gadewch i ni gadw'n golwg yn sefydlog ar Iesu, yr hwn a ymddygnodd hyd yr eithaf. Cyffes yr Apostol Paul ydoedd hyn: "Y mae gennyf gryfder at bob gofyn trwy yr hwn sydd yn fy nerthu i." (Philipiaid 4:13) Dylai geiriau Llythyr Iago ein calonogi yn yr un modd, "Fy nghyfeillion, cyfrifwch hi'n llawenydd pur pan syrthiwch i amrywiol brofedigaethau, gan wybod fod y prawf ar eich ffydd yn magu dyfalbarhad. A gadewch i ddyfalbarhad gyflawni ei waith, er mwyn ichwi fod yn berffaith a chyflawn, heb fod yn ddiffygiol mewn dim." (Iago 1:2–4)

Bydd yn wrol, paid â llithro,
    er mor dywyll yw y daith
y mae seren i'th oleuo:
    cred yn Nuw a gwna dy waith.
Er i'r llwybyr dy ddiffygio,
    er i'r anial fod yn faith,
bydd yn wrol, blin neu beidio:
    cred yn Nuw a gwna dy waith.

*Norman Macleod*
*cyf. Ben Davies*

Blwyddyn Newydd dda i bob yr un ohonoch.

Yr eiddoch yng Nghrist,
*Wyn Morris (Bugail)*


Ar ddechrau blwyddyn newydd fel yma hyfrydwch yw croesawu Eglwys Penllwyn i'r ofalaeth. Nid yw'r eglwys na'i haelodau yn ddieithr i ni ac edrychwn ymlaen at feithrin perthynas newydd o gydweithio a chyd-addoli â hwy gyda'r nod o ledaenu'r Efengyl yn y gymdogaeth. Dymunwn fendith Duw ar yr uniad.

# Tudalen y Plant

Ydych chi'n hoffi gwrando ar stori? Roedd Iesu'n hoff o adrodd storïau i ddysgu'r bobl oedd yn dod i wrando arno. Damhegion ydi'r enw ar y math yma o stori. Un o storïau mwyaf enwog Iesu ydi stori'r Samariad Trugarog. Chwiliwch am y stori yn y Beibl (gofynnwch i rywun eich helpu, os bydd angen), yna llanwch y grid ac ateb y cwestiwn.

**C Defnyddiwch y cliwiau hyn i lenwi'r GRID GEIRIAU**

1. Roedd hwn yn gymydog da.
2. Rhoddodd y Samariad y dyn ar gefn ei _ _ _ _ _ _ _ _ ei hun.
3. Sawl darn arian roddodd y Samariad i ddyn y gwesty?
4. Beth ddywedodd y Samariad wrth ddyn y gwesty? "G _ _ _ _ _ amdano."




Beth mae'r stori yma yn ei ddysgu i ni heddiw? ....................................

..........................................................................................................

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **31 Ionawr**

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

**Llongyfarchiadau i Angharad Rhodd Friswell, Ysgol Sul Capel Seion, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.**

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***


***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth***

| | |
|---|---|
| 30 Rhagfyr | Oedfa'r Ofalaeth am 10 o'r gloch dan arweiniad y Bugail yng Nghapel Seion |
| 31 Rhagfyr | Gwylnos yng Nghapel y Garn am 11.30 p.m. dan arweiniad y Bugail |
| 14 Ionawr | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth yn festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 24 Chwefror | Oedfa Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth dan arweiniad y Bugail am 10 o'r gloch |
| 29 Mawrth | Oedfa'r Groglith am 10 o'r gloch |
| 31 Mawrth | Oedfa Basg yr Ofalaeth am 10 o'r gloch |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn: www.capelygarn.org

Dewch i groesawu'r
flwyddyn newydd mewn
myfyrdod ac addoliad
nos Lun, 31 Rhagfyr,
yng Nghapel y Garn
am 11.30 pm
dan arweiniad y Bugail






Mae'n anodd credu fod tymor cyfan wedi hedfan heibio yn barod, a thymor cyntaf CIC wedi dod i ben. Yn sicr, rydym wedi cael amser gwych gyda'n gilydd, yn dod i adnabod ein gilydd, ac yn dod i glywed am y ffordd mae pobl wedi rhoi eu bywydau i Grist. Mae'r gemau wedi bod yn uchafbwynt clir yn y clwb, yn enwedig gyda gymaint o gymeriadau cystadleuol yno, ac rwyf yn edrych ymlaen yn arw at fwy o nosweithiau tebyg yn ystod y tymor nesaf. Cawsom sesiwn hyfryd hefyd yn creu cardiau Nadolig dan ofal Fal Jenkins, gyda nifer yn cymryd y cyfle i greu cardiau i'w ffrindiau a'u teuluoedd. Rydym i gyd yn edrych ymlaen at gael dathlu'r Nadolig nawr, ac fy ngweddi i dros yr ieuenctid, a throsoch chi i gyd yw y bydd y Nadolig yma yn un arbennig, ac y byddem oll yn dod i adnabod Iesu yn well wrth ddathlu ei enedigaeth. Nadolig Llawen.

*Eleri Barder*
*Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid Gogledd Ceredigion*

## CIC
## gweithgareddau'r gwanwyn 2013

**Nos Iau 10 Ionawr**
Noson croeso'n ôl
Festri'r Garn 19.00

**Nos Iau 24 Ionawr**
Noson thema
Festri'r Garn 19.00

**Nos Iau 7 Chwefror**
Ymweliad â Chanolfan Clarach

**Nos Iau 21 Chwefror**
Noson codi arian

**Nos Iau 7 Mawrth**
Dathlu Gŵyl Ddewi
Festri'r Garn 19.00

**Nos Iau 21 Mawrth**
Parti Pasg
Festri'r Garn 19.00



*Mwynhau gemau? Croeso i unrhyw un rhwng 10 ac 18 oed!*

## *Gwasanaeth Nadolig y Plant*



Plant ac ieuenctid ysgol Sul y Garn a gyflwynodd Stori'r Geni yng Ngwasanaeth yr Ofalaeth fore Sul, 16 Rhagfyr. Lluniwyd y sgript gan Cêt Morgan a hyfforddwyd y plant gan Carwen Hughes-Jones, Nia Peris a'r rhieni. Cafwyd gair i'r plant gan y Gweinidog am y Goeden Nadolig a'i symbolau o safbwynt Crist, y Nadolig a Christnogaeth.

## *Grŵp Help Llaw*

Byddai'r Grŵp yn ddiolchgar am eich stampiau, yn enwedig oddi ar amlenni cardiau Nadolig, er budd Oxfam – cofiwch adael ymyl o tua 1 cm o amgylch y stampiau.

Rydyn ni hefyd yn casglu hen sbectolau at Vision Aid Overseas, ac mae bocs yn festri'r Garn i dderbyn unrhyw gyfraniadau. Diolch am eich cydweithrediad.

Shân (828268) Bethan (611502)

## *Operation Christmas Child*






Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at yr ymdrech hon eto eleni.

Anfonwyd 55 o focsys a £80 o arian yn ychwanegol at arian y bocsys. Rydym yn gwerthfawrogi gwaith trylwyr Eddie a Bethan Jones a’r Grŵp Help Llaw yn trefnu'r ymdrech flynyddol hon.

### *Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth*




Bydd yr astudiaeth feiblaidd yn ailddechrau bnawn Mawrth, 15 Ionawr, dan arweiniad y Bugail. Bydd y grŵp yn parhau â'i daith gronolegol drwy'r Beibl yn dilyn y gyfrol *Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn*, sef addasiad Meirion Morris o gampwaith John Stott, *Through the Bible, Through the Year: daily reflections from Genesis to Revelation*. Paratowyd cydymaith pwrpasol i'r gyfrol gan Huw John Hughes.

Mae croeso cynnes i chi ymuno â'r dosbarth a gynhelir yn wythnosol, gan amlaf am 2 o'r gloch ar brynhawn dydd Mawrth yn festri Capel y Garn.

### *Capel y Garn – Te'r Chwiorydd*

Cynhaliwyd Te Misol y Chwiorydd ddydd Mercher, 5 Rhagfyr, gyda Merched y Dolau yn paratoi'r te. Mrs Sue Davies, Llandre, oedd y wraig wadd, ac ar ôl i Llinos Dafis ein harwain yn y defosiwn dechreuol cawsom awr ddiddig iawn yn gwneud addurniadau Nadolig deniadol a oedd o fewn cyrraedd y mwyaf anneheuig yn ein plith, a Sue, sy'n arweinydd Cylch Meithrin Rhydypennau, yn hen gyfarwydd â helpu'r arafaf. Roedd cyfle wedyn i brynu nwyddau masnach deg ar stondin a oedd wedi ei gosod yn ochor y bwrdd te. Gofynnwyd bendith ar y te gan ein Llywydd, y Barch Judith Morris, ac er syndod mawr roedd anrheg ddirgel wedi ei lapio ar blât pawb.

### *Cristion – y byd trwy lygaid ffydd*




Ydych chi'n darllen *Cristion*? Mae'n gylchgrawn diddorol ac amrywiol, ac yn cynnwys newyddion, erthyglau, adolygiadau a deunydd defosiwn. Fe'i cyhoeddir bob dau fis, ac os hoffech chi danysgrifio, cysylltwch ag Eddie Jenkins (828147).


## Ionawr

*Blaenor y Mis: D Bryn Lloyd*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie T Jenkins*

| | |
|---|---|
| **6** | Oedfa'r bore dan arweiniad y Parch Elwyn Pryse<br>Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 5 o'r gloch |
| 9 | Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch<br>Prynhawn yng nghwmni Mair Jones, Llanilar |
| **13** | Parch J E Wynne Davies |
| 18 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>Noson yng nghwmni'r Dr Mihangel Morgan |
| **20** | Bugail<br>Cymun yn oedfa'r bore |
| 25 | Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch |
| **27** | Parch Elwyn Pryse |

***Cyfrol newydd ar gapeli***




Newydd ei chyhoeddi mae cyfrol Saesneg gan D. Huw Owen, awdur *Capeli Cymru*.

Mae'n cynnwys lluniau a gwybodaeth gynhwysfawr am dros 120 o gapeli, llawer iawn ohonynt wedi chwarae rhan allweddol yng nghrefydd, diwylliant a hanes Cymru o'r 19g ymlaen, a rhai cyn belled ag America ac Awstralia, yn ogystal â Phatagonia.

Ymysg y capeli a ddisgrifir mae nifer o gapeli Aberystwyth, yn ogystal â Chapel y Garn, a cheir hanes difyr dechrau'r achos ac adeilad y capel – a'r angen cyson i ehangu wrth i'r gynulleidfa gynyddu.

Fe'i cyhoeddir gan Seren a'i phris yw £14.99

Llongyfarchiadau calonnog:

i Dylan a Helen ar enedigaeth merch, Evelyn Sophia Lois, chwaer fach i Fabien ac wyres gyntaf i Janet Roberts;

i Steffan a Rachel ar enedigaeth mab, Jac Owen, ŵyr arall i Janet Roberts – sydd yn fam-gu brysur iawn ar hyn o bryd;

i Osian, Gaerwen (gynt), ar ei benodiad yn bennaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Plas Coch, Wrecsam;

i John a Joyce Bowen ar ddathlu eu priodas ruddem.

Noson Gwis y Morlan

Nos Fercher, 16 Ionawr 2013

am 7 o'r gloch

Cwisfeistr: Lyn Léwis Dafis

Gwahoddir timau o gapeli ac eglwysi'r ardal – pedwar aelod ym mhob tîm

Cwestiynau mewn meysydd crefyddol a seciwlar am Darian Her Cwis Morlan

Paned a chacen am £1

*Beth am gael sawl tîm o'r Garn—rhowch eich enwau i'r Ysgrifennydd, Alan Wynne Jones*

## Chwefror

*Blaenor y Mis: Dewi G Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: D Bryn Lloyd / D Elystan-Morgan*

| | |
|---|---|
| **3** | Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa<br>Oedfa'r hwyr yn y Garn: Dr Rhidian Griffiths |
| 6 | Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch<br>'Blwyddyn mewn Lluniau' Iestyn Hughes |
| **10** | Dr Gwyn Davies |
| 15 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'David Lloyd' – darlith gan Dr Rhidian Griffiths |
| **17** | Bugail<br>Oedfa gymun yn y bore |
| **24** | Oedfa Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth am 10 o'r gloch |



Rhai o'r plant yn mwynhau parti Nadolig yr ysgol Sul yn festri'r Garn

## Mawrth

*Blaenor y Mis: D Elystan-Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian B Hughes*

| | |
|---|---|
| 1 | Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd<br>Cwrdd gweddi ar y cyd â chwiorydd Eglwys Llandre a Chapel Noddfa yng Nghapel y Garn am 2.30 p.m.<br>Thema: 'Bûm yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref' |
| **3** | Parch John Roberts |
| **10** | Parch Roger Ellis Humphreys<br>Bugail – oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre |
| 15 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>Dathlu Gŵyl Ddewi gyda'r Arglwydd Elystan-Morgan |
| **17** | Oedfa gymun dan arweiniad y Bugail<br>Miss Beti Griffiths |
| **24** | *Sul y Blodau*<br>Parch Ddr John Tudno Williams |
| 29 | Oedfa'r Groglith am 10 o'r gloch |
| **31** | *Sul y Pasg*<br>Oedfa Basg yr Ofalaeth dan arweiniad y Bugail<br>am 10 o'r gloch |





### *Ffair Nadolig*



Fore Sadwrn, 24 Tachwedd, cynhaliwyd Ffair Nadolig Capel y Garn, a drefnwyd gan Gymeithas y Chwiorydd. Eleni, am y tro cyntaf, cynhaliwyd y ffair yn festri'r capel yn hytrach nag yn neuadd y pentref. Agorwyd y ffair gan Lynda a Wynne Melville Jones, ac yn ei anerchiad pwysleisiodd Wynne bwysigrwydd cymdeithasau sy'n gweithredu'n lleol. Cyflwynwyd tusw o flodau i Lynda gan Lleucu a Besi James, Taigwynion. Wrth ddiolch i bawb ar y diwedd mynegodd y gweinidog, y Parch Wyn Morris, werthfawrogiad arbennig o waith Shân Hayward, ysgrifenyddes Cymdeithas y Chwiorydd,a fu wrthi'n ddyfal yn dwyn y cyfan ynghyd. Rhwng bwrlwm y stondinau, yr amrywiol gystadlaethau, y byrddau te a choffi, a'r gwmnïaeth gyfeillgar, crëwyd naws gynnes i'n paratoi ar gyfer y Nadolig. Gwnaed elw anrhydeddus tuag at y Capel hefyd a diolch yn fawr i Fanc Barclays am chwyddo'r elw hwnnw.

## *Capel Seion*

Fore Sul, 23 Medi, bedyddiwyd Iestyn Lewis, mab Angharad a Jonathan Lewis a brawd bach i Morgan, gan y gweinidog ,y Parchedig Wyn Morris. Dymunwn yn dda i'r teulu bach ac i tad-cu a mam-gu, Ieuan a Morwenna Rees, Bwlch Mawr, a mam-gu Heulwen Lewis , Capel Bangor. Llongyfarchiadau hefyd i Heulwen ar enedigaeth ŵyr bach i Meinir a Huw Euron, Caerffili.

Fore Sul, 4 Tachwedd, cynhaliwyd y bore coffi blynyddol dan ofal y dynion a gwelwyd llewyrch mawr ar y prynu a'r gwerthu ac ar y cymdeithasu dros baned o goffi. Roedd yr elw y tro hwn yn mynd tuag at apêl Guatemala a diolch am yr ymateb hael ac am bob cyfraniad a chefnogaeth.

Brynhawn Mercher, 14 Tachwedd, ymwelodd yr Henaduriaeth â Seion. Daeth tyrfa luosog ynghyd o Geredigion a Gogledd Penfro. Cafwyd trafodaeth drylwyr ar amrywiol faterion dan lywyddiaeth medrus Miss June Evans, Aberaeron, a'r cynrychiolwyr yn diolch a chanmol y croeso a'r te a baratowyd iddynt gan aelodau Seion.






Brynhawn Sul, 2 Rhagfyr, yn dilyn parti Nadolig ac ymweliad gan Siôn Corn yn Llety Parc, Aberystwyth, cynhaliwyd oedfa Sul cyntaf yr Adfent yn y capel yng ngofal aelodau'r Ysgol Sul. Cyflwynodd y plant bach hanes traddodiad y Dorch a'r Canhwyllau Adfent gan esbonio arwyddocâd lliwiau porffor, pinc a gwyn y canhwyllau a'r geiriau Cariad, Gobaith, Llawenydd, Heddwch a Purdeb yn nodweddu pob un. Bu'r plant hŷn yn cyflwyno Coeden Jesse gan roi cardiau symbolaidd ar y goeden yn baratoad ar gyfer y Nadolig. Bu'r aelodau eraill yn cyflwyno chwe llythyren y gair Adfent yn eu tro a chafwyd blas eleni eto ar ganu carolau'r Adfent a'r Nadolig gan y gynulleidfa gyfan.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch ac anfonwn ein cofion anwylaf at ein haelodau sy'n gaeth i'w cartrefi neu mewn cartrefi gofal.

## *Carol Plygain*

O deuwch, blant duwiol, a'r gân yn blygeiniol
Eleni i ganmol y Gŵr,
Ein llyw hollalluog, yr Iddew mawreddog,
Efe yw'n tywysog a'n tŵr.

Dan seren llawenydd sy'n harddu y wawrddydd
Y down at ein gilydd i gyd
I weled dan olau y grym ddaeth o rwymau
I leddfu holl boenau y byd.

O lwch y llwm loches, telyneg o neges
Roes seren o hanes mor wych,
O wybod fod baban yn nh'wyllwch tai allan
Dan rastal yn ebran yr ych.

Y grasol fab Iesu, â'n cathl cawn ddathlu
Ei ganfod mewn llety mor llwyd,
Yn iach mewn cadachau a swyn yn ei synau
Yn cogran heb olau na bwyd.

Â dau ar awr dawel yn huno'n yr anwel
Daeth un o lu Gabriel drwy'r gwyll
A gwŷs yn ei gysgod yn archu i'w warchod
Rhag llid Brenin Herod, ŵr hyll.

Y dwyfol a dyfodd a'i allu ni phallodd,
Y llencyn a synnodd y saint.
Iachawdwr pechadur! O geisio ei gysur
Cawn gariad difesur ei faint.

O! feddyg rhyfeddol a'i fedr anfeidrol,
Orchfygwr y diafol mewn dyn;
Gwae wedyn y gwawdio a hoelio ei ddwylo
I'r groes a'i hysgwyddo ei hun.

Gwae'r archoll o'i golli, ond awn i gyflawni
Ei waith drwy gyhoeddi y Gair
Yn aeddfed ac addfwyn ein baich, ond heb achwyn,
Dros blentyn y lân Forwyn Fair.

*Vernon Jones*

# CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, CAPEL REHOBOTH

Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd brynhawn Mawrth, 9 Hydref, yn festri capel Rehoboth, Taliesin. Croesawodd Myfanwy Rowlands ein gŵr gwadd, sef Dr Terry Edwards, Waunfawr, a chawsom brynhawn difyr yn gwrando arno yn hel atgofion am ei blentyndod yn Aberystwyth. Roedd yn blentyn ysgol adeg yr Ail Ryfel Byd a mynychodd Ysgol 'National' Heol y Gogledd ac Ysgol Ramadeg Ardwyn. Saesneg oedd iaith yr ysgol, a dysgodd yntau'r Gymraeg fel ail iaith. Er nad oedd sôn am y rhyfel yn yr ysgol, roedd yn ymwybodol fod rhyfel ymlaen am fod milwyr ac aelodau'r Llu Awyr i'w gweld ar hyd y dre. Hefyd, daeth *evacuees* i'r ysgol ond roeddent hwy yn cael eu dysgu ar wahân i'r plant eraill. Cadwai'r teulu lety ym Morfa Mawr, ac yn ystod y rhyfel roedd tuag ugain o bobl, yn cynnwys myfyrwyr, yn lletya yno. Roedd ei blentyndod yn y dre yn hapus a heb bryderon yn ystod y rhyfel, gyda digon o ryddid i grwydro a mynd ar ei feic. Diolchwyd i Dr Edwards gan Ann Jenkins. Olwen Rowlands a Megan Brickley oedd yng ngofal y te.

Yn y cyfarfod nesaf ar 13 Tachwedd, croesawyd Dr Gerwyn Thomas, Aberaeron, atom. Bu'n feddyg teulu yn Aberaeron ers chwarter canrif, a soniodd sut mae pethau wedi newid yn ystod yr amser hwnnw. Nid yw meddygon yn cael eu galw bob awr o'r nos bellach i ymweld â chleifion, ac mae newidiadau mawr wedi digwydd yn y feddygfa hefyd gyda data pob claf yn cael ei gadw ar gyfrifiadur mewn canolfan ym Mhont-y-pŵl erbyn hyn. Wrth wrando ar ei sylwadau fe wnaethom ddysgu llawer am y gwasanaeth iechyd, y newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a'r hyn sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol. Diolchwyd i Dr Thomas gan Mai Leeding, ac yna mwynhawyd paned o de wedi ei baratoi gan Daphne Farthing ac Eirlys Jones.

## *Atgofion Oes – Elystan Morgan*

Roedd Neuadd y Morlan dan ei sang nos Wener, 9 Tachwedd, pan lansiwyd cyfrol o atgofion yr Arglwydd Elystan-Morgan – arwydd clir o'r parch enfawr sydd gan drigolion y fro a'r tu hwnt tuag un sydd wedi cyfrannu cymaint mewn cynifer o ffyrdd tuag at fywyd yr ardal a'r genedl. Cafwyd holi treiddgar ond caredig gan Dylan Iorwerth, ac roedd yn fraint gwrando ar y sgwrs gartrefol rhwng y ddau.


Ac yntau bellach newydd ddathlu ei ben blwydd yn bedwar ugain, roedd yn briodol iawn ei fod 'yn eistedd yn ôl yn ei gadair ac yn bodio trwy swrn o hen luniau', a'r hyn a geir yn y gyfrol yw'r 'atgofion a'r myfyrdodau a ffrydia i'r meddwl yng nghyswllt pob un ohonynt'. Mawr yw ein diolch i'r Dr Huw Williams am fynd ati i roi'r cyfan ar bapur, gan brocio a holi ymhellach pan oedd angen, i wasg y Lolfa am gyhoeddi'r gyfrol nodedig hon ac i'r Cyngor Llyfrau am ei nawdd hael.

Ceir ynddi ddarlun cynnes a byw iawn o Bow Street a'r cyffiniau yn ystod blynyddoedd plentyndod Elystan yn y tridegau – gan gynnwys rôl allweddol Capel y Garn:

> Bywyd pur ddiniwed oedd i'r fro, ac roedd awdurdod y capel yn enfawr. Roedd agwedd y capel ar unrhyw fater, beth bynnag y bo, yn rhoi arweiniad, ac yn wir yn rheoli agwedd y gymdeithas. Mae'r capel yn llawer llai perthnasol erbyn hyn, a dyna, mewn sawl ystyr, sydd yn gwneud bywyd yn fwy digyfeiriad ac yn erydu safonau.
>
> Yn ystod blynyddoedd fy mhlentyndod, byddai rhywun yn gweld bron popeth a ddigwyddai o bersbectif y capel. Ni allaf orbwysleisio'i ddylanwad, ac yn wir roedd Cymru wledig yn Gymru ysbrydol hyd at ddiwedd tridegau'r ganrif ddiwethaf. Y capel oedd both olwyn y gymdeithas, a dyna un o'r newidiadau aruthrol a ddaeth i'n bywyd beunyddiol.

Bachgen eithriadol o ddireidus oedd Elystan – ac mae rhywun yn cael yr argraff nad oedd ei allu a'i ddychymyg yn cael eu hymestyn ddigon gan yr addysg ffurfiol a geid o fewn ysgolion Ceredigion, gyda'r canlyniad ei fod byth a hefyd yn dyfeisio triciau i'w chwarae ar athrawon a chyfeillion.

Parhaodd yr hwyl drwy ddyddiau coleg a'r blynyddoedd – diflas, braidd – a dreuliodd yn gwneud ei erthyglau gyda Chyngor Sir Ceredigion. Ond pan ddaeth hi'n fater o warchod buddiannau cleientiaid fel cyfreithiwr ifanc yn Wrecsam, buan y difrifolodd a gwnaeth ei orau drostynt.




Yn fuan wedi iddo symud i Wrecsam digwyddodd dau beth a fu'n allweddol ym mywyd Elystan: dechrau ymwneud o ddifrif â gwleidyddiaeth a chyfarfod ag Alwen, a ddaeth yn gymar bywyd iddo wrth gwrs. Cyflwynir y gyfrol er cof am Alwen 'o'r addfwyn yr addfwynaf' a cheir yma deyrnged addas a hynod deimladwy iddi.

Mae rhywbeth i bawb yn y gyfrol – o achau teulu'r Morganiaid hyd at weledigaeth Elystan o ddyfodol cyfansoddiadol i wleidyddiaeth Cymru. All rhywun ddim peidio â rhyfeddu at ehangder gwybodaeth a chof aruthrol yr awdur, a hynny mewn sawl maes. Ceir ymdriniaeth onest â'i benderfyniad – dewr neu ddadleuol – i adael Plaid Cymru ac ymuno â'r Blaid Lafur, a darlun byw o'i gyfnod fel Aelod Seneddol Llafur Ceredigion, fel Is-ysgrifennydd yn y Swyddfa Gartref ac fel aelod o'r wrthblaid, a hefyd yn ddiweddarach fel aelod o Dŷ'r Arglwyddi. Rhwng y ddau gyfnod hwn, gweithredodd fel bargyfreithiwr a barnwr, a cheir cipolwg diddorol ar sawl agwedd ar system cyfiawnder cyfreithiol y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y penderfyniadau anodd mae'n rhaid i farnwr eu gwneud mewn achosion sy'n ymwneud â phlant.

Ond er iddo gyrraedd yr uchelfannau a chyflawni swyddi pwysig ac allweddol mewn sawl maes a throi ymysg enwogion a phwysigion, nid yw Elystan erioed wedi anghofio'i wreiddiau. Wedi darllen y gyfrol ddifyr a dadlennol hon, un o'r pethau sy'n aros yn y cof yw cymeriad mor ddiymhongar yw'r awdur – fel y profodd cynulleidfa niferus y Morlan yn sicr ar noson y lansiad. Wrth ddathlu cyfrol – a phen blwydd – arbennig, dymunwn hir oes a blynyddoedd lawer o wleidydda eto i Elystan, a boed iddo barhau 'i dynnu blewyn o drwyn gweinidog neu i rannu straeon y dydd gydag ambell "enaid hoff cytûn" '.

## FFYDD A'R MEDDWL SECTYDDOL

Wrth ystyried dyfodol y dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru rwy'n gorfod cytuno â sylw'r cyfaill a ddywedodd fod Ymneilltuaeth yn marw a ddim yn marw'n hardd iawn. Mae sail i gredu hynny fel y gwelsom gan weinidogion a lleygwyr ar dudalennau'r *Goleuad*, ac ar y radio pan soniodd Harri Parri am gyfaill o flaenor a roddodd oes o wasanaeth i'w eglwys yn cael ei gondemnio o fod yn hanner Cristion, os Cristion o gwbl, gan rai ifanc haerllug ac anfrawdol. Dyma'r criw sy'n dweud iddynt 'ddod i'r bywyd' yng Ngholeg y Bala a mannau eraill, y criw sydd wedi'u caethiwo i un safbwynt ffwndamentalaidd cul gan anghofio fod y Testament Newydd yn disgwyl inni draethu am 'holl Gyngor Duw' – nid un rhan ohono.

Mae'r anoddefgarwch a'r culni i'w ganfod yn ogystal ymhlith y Bedyddwyr a'r Annibynwyr, fel y dangosodd Alun Tudur yn ei olygyddol yn *Y Tyst* wrth ymateb i'r drafodaeth am uno'r papurau enwadol sydd eisoes yn cynnwys pedair tudalen sy'n gyffredin i bawb. Ar derfyn ei lith gwrthwynebus ysgrifennodd Alun y frawddeg fwyaf trist a welais ers tro: 'Pe bai yr enwadau yn penderfynu uno'r wythnosolion, fe fyddwn i yn ystyried o ddifrif yr angen i sefydlu papur Annibynnol newydd'. Ym mha fyd y mae Alun a'i debyg yn byw?

Rhag imi ddigalonni roedd yn dda gennyf droi unwaith eto at un o ysgrifau goleuedig Harri Williams, fy nhad yng nghyfraith, o dan bennawd y llith yma. Yr hyn sy'n drist yw fod yr hyn a ysgrifennwyd ganddo ym 1971 yn dal yn wir, yn fwy gwir yn ein cyfnod ni o ymbleidio a checru. Cyhoeddwyd yr ysgrif yn llyfr H.W. *Oni Thregnodd Duw?* (1975). Mae'n cychwyn gyda Williams Pantycelyn yn canmol Ffidelius, y cymeriad yn *Tri Wŷr o Sodom a'r Aifft* sy'n bortread o'r Cristion delfrydol: 'Yr wyf o'r un farn â Ffidelius pan wyf yn gweled gweinidogion yn gwresogi o blaid sect yn fwy nag o blaid efengyl Duw ... Rhai'n codi i fyny ryw synagogau bychain a chasglu yno ychydig braidd oddi yma a thraw wedi eu lladrata gan mwyaf o synagogau eraill, ac nid eu dwyn oddi ar Ddiafol ... Rhyfedd y dyddiau hyn yw gweld rhai sy'n honni bod yn ffyddlon i weledigaeth y Methodistiaid cynnar mor amddifad o'r ysbryd graslon a'u nodweddai hwy!'

Wedi holi pam fod yr ysbryd sectyddol yn ymddangos, teimlai H.W. ei fod yn tarddu o gamddehongliad dybryd o'r hyn a olygir wrth ffydd. Mae ar y naill law yn golygu'r 'athrawiaeth gywir a drosglwyddir gan yr Eglwys, "y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint" a bod "yn iach yn y ffydd". Golyga gred gywir *am* Dduw, ac *am* Grist; credu *bod*, neu gredu *mai. ...* Ond sylwer ar y defnydd arall sydd i'r gair: "Bydded gennych ffydd *yn* Nuw, canys chwi oll ydych blant i Dduw trwy ffydd *yng* Nghrist Iesu". A dyma'r ffordd y defnyddir y gair amlaf yn y Beibl: credu *yn Nuw,* nid credu *am Dduw*; credu *yng* Nghrist, nid credu *am* Grist.'

Gwelwyd 'y credu'n troi'n *gredo*, a'r profiad yn esgor ar *athrawiaeth* ... Wrth i'r Eglwys orfod wynebu dadleuon a chamddehongliadau, lluniwyd credoau ac athrawiaethau, a daeth i fod y systemau diwinyddol cymhleth, dyrys ymhell uwchlaw amgyffred y Cristion cyffredin. *Ond dyma'r drychineb fawr yn digwydd – y fwyaf yn holl hanes yr Eglwys yn ôl y diwinydd Brunner – cred athrawiaethol yn disodli ffydd bersonol, "credu am" yn cymryd lle "credu yn", "Y Ffydd" yn mynd yn bwysicach na "ffydd", a'r Eglwys yn colli golwg ar y ffaith mai ymateb personol i Grist yw sylfaen ei bywyd a'i hiechyd ac nid cred mewn athrawiaeth*.'

Wedi nodi tri pherygl, 'Rhoi mwy o bwys ar eiriau nag ar y Gair; Rhoi mwy o bwys ar y deall nag ar y bersonoliaeth gyfan; a Rhoi mwy o bwys ar sect nag ar yr Efengyl', ychwanegir, 'Nid mewn unrhyw ysbryd sectyddol y cychwynnodd y Diwygiad Methodistaidd. Ysbryd grasol, eciwmenaidd, a ysgogai Howel Harris a William Williams ... Mor wahanol yr ysbryd yma i'r ysbryd dadleugar a checrus a ddaeth i Gymru ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf! Y pendil unwaith eto wedi symud i'r eithaf arall; gwres y profiad gwreiddiol wedi oeri, Y Ffydd yn bwysicach na ffydd, a John Elias yn ceisio gorfodi pawb i'w ffordd ef ei hun o feddwl. "Un pulpud yn fflangellu'r athrawiaeth yn y llall", unwaith eto. Dyma'r cyfnod anffodus a esgorodd ar Gyffes Ffydd y Methodistiaid Calfinaidd.'

'Trist a thrychinebus yw'r sefyllfa grefyddol yng Nghymru heddiw ... Mwy o'r ysbryd hunan-feirniadol sydd arnom ei angen, a mwy o barodrwydd, bawb ohonom, i edifarhau am ein methiannau. Y mae gormod o lawer o "fflangellu", a hynny'n aml mewn ysbryd angharedig. Pa les i'r Deyrnas a ddaw o gyhuddo cyd-Gristnogion o fod yn "baganiaid" ac yn "Hindŵaid"? A pha les a ddaw o alw'r hyn a bregethir ym mhulpudau Cymru heddiw yn "sothach ffansïol"? Nid at gyfnod y Gyffes Ffydd y dylem droi am arweiniad ac ysbrydiaeth, ond at y cyfnod a roes gychwyn i'r pwerau grymus a'r profiadau tanbaid, lle'r oedd y pwyslais pennaf, nid ar unuiongrededd a phlygu i gyfres o osodiadau athrawiaethol, ond ar ffydd a chariad a goddefgarwch.'

Dyfynnais yn helaeth o'r ysgrif gan y credaf y gallai ei chynnwys eangfrydig esgor ar drafodaeth gall a chytbwys y mae ei mawr angen arnom yn hirlwm ysbrydol y Gymru bresennol. Ond ofnaf y gallaf gael fy siomi, fel Pryderi Llwyd Jones, golygydd *Y Goleuad,* wedi iddo gynllunio cyfres o erthyglau i drafod beth yw ystyr syniadau 'rhyddfrydol' ac 'efengylaidd'. 'Methwyd â chael neb i gyflwyno y dystiolaeth efengylaidd,' meddai Pryderi. Er bod cyfeillion y pwyslais efengylaidd yn cyhoeddi o hyd eu bod yn 'iachach yn y ffydd' na'r gweddill ohonom a gyhuddir ganddynt o lastwreiddio'r Ffydd Gristnogol, rwy'n credu mai pobl ansicr o'u ffydd sy'n gwrthod cynnal trafodaeth agored a brawdol gyda chyd-Gristnogion.

*W. J. Edwards*

**CRISTNOGAETH21 ABERYSTWYTH**
**YN Y MORLAN**

| | |
|---|---|
| 9 Ionawr | 'Holi'r Holwr' – John Roberts |
| 23 Ionawr | Noson Ysgrythur |
| 13 Chwefror | 'Brethyn Cartref': cyflwyno hoff ddarn o farddoniaeth, celf neu gerddoriaeth |
| 27 Chwefror | Noson Ysgrythur |
| 13 Mawrth | 'Ffydd a Byd y Celfyddydau' – Euros Lewis |
| 27 Mawrth | Noson Ysgrythur |
| 10 Ebrill | 'Beth mae fe'n feddwl?' Golwg ar Eiconau Eglwys y Dwyrain gyda'r Barch Enid R Morgan |
| 22 Mai | Cyfarfod Blynyddol – edrych ymlaen |

*Yr ail a'r bedwaredd nos Fercher am 7.30 pm*

*Croeso cynnes i bawb*

*Yr Eglwys*

Daliaf nad yw'n adeilad – ar y Sul
i ryw swel gynulliad;
nid basâr na siop-siarad,
ond teml i glywed y Tad.

Einion Evans

***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Mrs Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow St (01970 828662)
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **10 Mawrth:**

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com